Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd Penrhyn ar **17eg Gorffennaf 2023** am 6.30 pm.

**PRESENNOL:-** Ei Theilyngdod y Maer, Cyng. Elin Walker Jones; Cyng. Gareth Parry (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng L. Toth, Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos Fôn Jones (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig) Sioned Jones (Cyfieithydd) ac un Aelod o'r Cyhoedd.

**30/ 23 YMDDIHEURIADAU :** Cyng Dylan Fernley, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Gareth Roberts.

**31/23 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim

**32/23 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

(i) Cafwyd anerchiad gan y Cynghorydd Sir, Dafydd Meurig, Aelod Cabinet yr Amgylchedd y Cyngor, a thrafododd weithrediad diweddar Cyngor Gwynedd, sef y polisi i godi tâl ar adwerthwyr am osod byrddau a chadeiriau y tu allan i'w heiddo. Eglurodd y Cyng Meurig fod hwn yn bolisi Sir gyfan. Yn dilyn ei anerchiad gofynnodd i'r Aelodau am eu barn. Soniodd yr Aelodau wrth y Cynghorydd Meurig am yr ymgyrch ddiweddar ar y cyfryngau cymdeithasol yn erbyn y polisi hwn a gwnaeth yr achos hefyd, o ystyried y problemau sydd i gadw eiddo i fynd ar y Stryd Fawr a nifer yr adeiladau gwag, y dylid ystyried Bangor yn achos arbennig. Gwrandawodd y Cyng. Meurig ar farn Cyngor y Ddinas a dywedodd y byddai'n mynd â'u safbwyntiau i Gyngor Gwynedd ac yn adrodd yn ôl ymhen amser.

**33/23 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**
*Adroddiad wedi ei ddosbarthu cyn y cyfarfod.*
Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig wedi'i gylchredeg ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Roedd yr Adroddiad yn manylu ar nifer o ddiweddariadau i fentrau a digwyddiadau'r Cyngor, gan gynnwys yr ymgais ddiweddar i brynu adeilad ar y Stryd Fawr at ddefnydd y gymuned, llwyddiant Sul y Maer, a drefnwyd yn gyfan gwbl gan y Dirprwy Gyfarwyddwr, y digwyddiad diweddar i goffhau Windrush, ymweliad â Soest fel rhan o hanner canmlwyddiant y Gefeillio a rali Yes Cymru sydd i'w chynnal ym Mangor yn ystod ail hanner mis Medi.
**PENDERFYNWYD:** Derbyn Adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig.

**34/23 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 5ed Mehefin 2023**
**PENDERFYNWYD:** bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2023.

**35/23 CYMERADWYO'R DATGANIAD O GYFRIFON DRAFFT A'R DATGANIAD BLYNYDDOL.**
*Roedd y datganiad cyfrifon drafft a'r ffurflen flynyddol wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod.*
Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig, yn ychwanegol at y Datganiad Cyfrifon a'r Datganiad Blynyddol a oedd wedi'u cylchredeg ymlaen llaw, bod yr adroddiad Archwilio Mewnol wedi'i

dderbyn yn gynharach y diwrnod hwnnw. Tra bydd yr Adroddiad yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, dywedwyd nad oedd unrhyw faterion ariannol arwyddocaol yn yr adroddiad.
**PENDERFYNWYD:** derbyn y Datganiad Cyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol a phenderfynodd y Cyngor hefyd ddiolch i Gyfarwyddwr y Ddinas a'i dîm am eu diwydrwydd a'u gwaith caled.

**36/23 CYMERADWYO DOGFENNAU'R CYNGOR**
*Roedd Asesiad Risg Ariannol a Strategaeth Fuddsoddi Cyngor y Ddinas wedi'u cylchredeg ymlaen llaw.*
Adroddwyd bod asesiad Risg Ariannol Cyngor y Ddinas wedi'i adolygu a bod mân newidiadau wedi'u gwneud. Roedd Strategaeth Fuddsoddi wedi'i pharatoi a'i chyhoeddi am y tro cyntaf.
**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo a derbyn y ddwy ddogfen Cyngor fel y'u dosbarthwyd sef i) Strategaeth Fuddsoddi a ii) Rheoliadau Ariannol

**37/23 CANOLFAN IEUENCTID I BOBL IFANC.**
Trafodwyd dau gynnig yn ymwneud â phobl ifanc:
i) Canolfan Symudol: Adroddwyd bod Heddlu Gogledd Cymru yn cynnig ymchwilio i fenter newydd i sefydlu canolfan ieuenctid symudol, wedi ei harwain a'i hariannu ar y cyd gan Gyngor y Ddinas, Cyngor Tref Caernarfon a'r Heddlu. Byddai canolfan symudol o'r fath yn cael ei lleoli mewn ardaloedd lle mae pobl ifanc yn ymgasglu a byddai'r ganolfan yn treulio hanner ei hamser ym Mangor a hanner yng Nghaernarfon. Mae mentrau o'r fath mewn mannau eraill wedi arwain at leihad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.
ii) Canolfan Statig: Adroddwyd ymhellach bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn cael trafferth recriwtio gweithiwr ieuenctid ar gyfer Coed Mawr, a gymeradwywyd yn flaenorol, tra bod grŵp ieuenctid Tryfan, a sefydlwyd yn flaenorol yn Ysgol Tryfan, yn chwilio am gartref newydd. Cafwyd trafodaeth fanwl ar y materion hyn.

**PENDERFYNWYD** : i ) awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dinesig i weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Tref Caernarfon i ymchwilio ymhellach i'r cynnig. ii) Na fyddai newid i'r polisi presennol ar y canolfannau ieuenctid sefydlog.

**38/23 TRAFOD GRANT AR GYFER Y NOSON TÂN GWYLLT A'R CRACER NADOLIG.**
Gofynnwyd i'r Cyngor gefnogi'n ariannol Noson Tân Gwyllt 2023 a'r Cracer Nadolig am yr un faint â'r llynedd. Roedd digwyddiadau'r flwyddyn flaenorol wedi'u hystyried yn llwyddiant mawr gyda miloedd o bobl yn mynychu, yn ôl ffigyrau'r Heddlu. Trafododd y Cyngor y digwyddiadau yn fanwl a chydnabuwyd bod y ceisiadau hyn yn cael eu gwneud yn llawer cynharach nag yn y blynyddoedd blaenorol.
**PENDERFYNWYD:** cadarnhau bod y Cyngor yn ariannu'r Noson Tân Gwyllt hyd at £5,000, yn unol â'r gyllideb flynyddol a £10,000 yn cael ei gymeradwyo tuag at y Cracer Nadolig.

**39/23 TRAFOD CAIS I GEFNOGI RHAGLEN GWYLIAU'R HAF.**
Gan nad oedd rhywfaint o wybodaeth angenrheidiol wedi dod i law'r Cyngor cyn y cyfarfod, gohiriwyd yr eitem hon.

**40/23 CYMERADWYO CYNYDDU NIFER Y COED SAKURA YNG NGHAEAU ASHLEY JONES**
Yn dilyn trafodaeth fer, pan awgrymodd y Cyngor blannu gwahanol fathau o goed, gohiriwyd yr eitem er mwyn cael mwy o wybodaeth ac opsiynau.

**41/23 PENODI CYNRYCHIOLWYR I GYRFF ALLANOL**
Adolygwyd a diweddarwyd rhestr penodiadau Cyngor y Ddinas i gyrff allanol. Penodwyd hefyd Aelodau yn gynrychiolwyr yng nghyfarfodydd Un Llais Cymru.
**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r rhestr o benodiadau i gyrff allanol.

**42/23 CAIS CYNLLUNIO**

i) Cais cynllunio C23/0497/11/LL Codi adeilad un llawr yn Ysgol Friars.
Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau

ii) Cais cynllunio C23/0484/11/DT I addasu modurdy i ddarparu ystafell wely, cawod a chyfleustodau.
Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau

**43/23 Cymeradwyo Taliadau**
Cymeradwywyd y rhestrau taliadau ar gyfer Mai a Mehefin 2023.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 p.m**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR